# CYNLLUN MARCIO TAG UG

## HAF 2016

## SEICOLEG - UNED 1 (NEWYDD)
## 2290N10-1

mFersiwn Cymraeg o'r cynllun marcio cyfrwng Saesneg gwreiddiol yw hwn. Ni chafodd ei ddefnyddio'n ymarferol yn y gynhadledd farcio

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd fersiwn Saesneg gwreiddiol y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2016. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

## TAG SEICOLEG

### Uned 1

| Cwestiwn | AA1 | AA2 | AA3 | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| **1** | 8 | | | 8 |
| **2** | 8 | | | 8 |
| **3** | | | 10 | 10 |
| **4** | 12 | | | 12 |
| **5** | 12 | | | 12 |
| **6** | | | 8 | 8 |
| **7** | | | 12 | 12 |
| **8** | | 10 | | 10 |
| **CYFANSWM** | **40** | **10** | **30** | **80** |

© WJEC CBAC Cyf.

**TAG SEICOLEG - UNED 1**

**CYNLLUN MARCIO HAF 2016**

1. Gan ddefnyddio enghreifftiau o seicoleg, esboniwch **ddwy** o ragdybiaethau'r ymagwedd wybyddol. [4+4]

<table>
<tr><td colspan="2">Gellir rhoi marciau am esboniadau am y canlynol:<ul><li>Cydweddiad cyfrifiadur: mewnbwn, proses, allbwn; model aml-storfa o'r cof.</li><li>Prosesau meddyliol mewnol: canolbwyntio, canfyddiad, cof.</li><li>Sgemâu: pecynnau trefnus o wybodaeth.</li></ul><ul><li>Unrhyw dybiaeth briodol arall.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Marciau (am bob tybiaeth)</td><td>AA1</td></tr>
<tr><td>4</td><td><ul><li>Mae'r esboniad a'r lefel cywirdeb yn drylwyr ac yn amlwg wedi'u cysylltu â seicoleg.</li><li>Defnydd effeithiol o derminoleg briodol.</li></ul></td></tr>
<tr><td>3</td><td><ul><li>Mae'r esboniad a'r lefel cywirdeb yn rhesymol ac yn amlwg wedi'u cysylltu â seicoleg.</li><li>Defnydd da o derminoleg briodol.</li></ul></td></tr>
<tr><td>2</td><td><ul><li>Mae'r esboniad a'r lefel cywirdeb yn sylfaenol.</li><li>Efallai na fydd y cysylltiad â seicoleg yn eglur.</li><li>Defnydd prin o derminoleg briodol.</li></ul></td></tr>
<tr><td>1</td><td><ul><li>Nodi'r dybiaeth yn unig sydd yma.<br>NEU</li><li>Mae'r esboniad yn arwynebol.</li><li>Dim cysylltiad â seicoleg.</li><li>Defnydd prin iawn o derminoleg briodol.</li></ul></td></tr>
<tr><td>0</td><td><ul><li>Ateb amhriodol wedi'i roi.</li><li>Dim ymgais i roi ymateb.</li></ul></td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Cyf.

2. (a) Disgrifiwch sut mae **un** dybiaeth o'r ymagwedd ymddygiadol yn gallu cael ei chymhwyso at ffurfio perthnasoedd. [4]

**Gellir** rhoi marciau am ddisgrifiad o'r canlynol:

- Dysgu ymddygiad drwy gyflyru:
- Cyflyru clasurol, mam a phlentyn, ffurfio perthynas â bwyd.
- Cyflyru gweithredol, mam a phlentyn, cariad cwpwrdd.
- Cyflyru gweithredol, anifail anwes a pherchennog, atgyfnerthiad cadarnhaol.

- Unrhyw dybiaeth briodol arall.

| Marciau | AA1 |
|---|---|
| **4** | • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn drylwyr ac yn amlwg wedi'u cysylltu â ffurfio perthnasoedd.<br>• Defnydd effeithiol o derminoleg briodol. |
| **3** | • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn rhesymol ac wedi'u cysylltu â ffurfio perthnasoedd.<br>• Defnydd da o derminoleg briodol. |
| **2** | • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn sylfaenol.<br>• Efallai na fydd y cysylltiad â ffurfio perthnasoedd yn eglur.<br>• Defnydd prin o derminoleg briodol. |
| **1** | • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn arwynebol.<br>• Cysylltiad cymysglyd â ffurfio perthnasoedd.<br>• Defnydd prin iawn o derminoleg briodol. |
| **0** | • Ateb amhriodol wedi'i roi.<br>• Dim ymgais i roi ymateb. |

2. (b) Disgrifiwch sut mae **un** dybiaeth o'r ymagwedd bositif yn gallu cael ei chymhwyso at ffurfio perthnasoedd. [4]

**Gellir** rhoi marciau am ddisgrifiad o'r canlynol:

- Dangos cydnabyddiaeth o ewyllys rydd pan mae unigolion yn defnyddio safleoedd canfod cariad ac yn dewis priodweddau eu partner at y dyfodol.
- Dilysrwydd daioni a rhagoriaeth, perthnasoedd yn caniatáu hybu'r priodweddau hyn.
- Canolbwyntio ar y bywyd da, cysylltiad ag un arall, Damcaniaeth Anghenion Sylfaenol, rôl cyfeillgarwch a chydberthnasau eraill wrth hybu hapusrwydd a llesiant (5 Ffordd o gael Llesiant)

- Unrhyw dybiaeth briodol arall.

| Marciau | AA1 |
|---|---|
| **4** | • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn drylwyr ac yn amlwg wedi'u cysylltu â ffurfio perthnasoedd.<br>• Defnydd effeithiol o derminoleg briodol. |
| **3** | • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn rhesymol ac wedi'u cysylltu â ffurfio perthnasoedd.<br>• Defnydd da o derminoleg briodol. |
| **2** | • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn sylfaenol.<br>• Efallai na fydd y cysylltiad â ffurfio perthnasoedd yn eglur.<br>• Defnydd prin o derminoleg briodol. |
| **1** | • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn arwynebol.<br>• Cysylltiad cymysglyd â ffurfio perthnasoedd.<br>• Defnydd prin iawn o derminoleg briodol. |
| **0** | • Ateb amhriodol wedi'i roi.<br>• Dim ymgais i roi ymateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

3. Gwerthuswch therapi ymddygiadol gwybyddol *(CBT)* **NEU** therapi ymddygiadol rhesymoli emosiwn *(REBT).* [10]

| Therapi ymddygiadol gwybyddol *(CBT)* | Therapi ymddygiad rhesymoli emosiwn *(REBT)* |
|---|---|
| **Gellir** rhoi marciau am werthusiad o'r canlynol:<br>• Effeithiolrwydd: canlyniadau astudiaethau ymchwil.<br>• Cymaroldeb â therapïau eraill.<br>• Moeseg y broses.<br>• Dilysrwydd y dybiaeth y mae'r therapi'n seiliedig arni.<br><br>• Unrhyw werthusiad priodol arall. | **Gellir** rhoi marciau am werthusiad o'r canlynol:<br>• Effeithiolrwydd: canlyniadau astudiaethau ymchwil.<br>• Cymaroldeb â therapïau eraill.<br>• Moeseg y broses.<br>• Dilysrwydd y dybiaeth y mae'r therapi'n seiliedig arni.<br><br>• Unrhyw werthusiad priodol arall. |

| Marciau | AA3 |
|---|---|
| **9-10** | • Mae'r gwerthusiad yn drylwyr.<br>• Mae dyfnder ac amrediad i'w gweld.<br>• Mae dadleuon datblygedig a chytbwys i'w cael.<br>• Mae'r sylwadau gwerthusol yn amlwg yn berthnasol i'r cyd-destun.<br>• Strwythur rhesymegol<br>• Mae'n dod i gasgliad priodol ar sail y dystiolaeth a gyflwynir. |
| **6-8** | • Mae'r gwerthusiad yn rhesymol.<br>• Mae dyfnder ac amrediad i'w gweld, ond efallai nad ydynt yn gytbwys.<br>• Mae'r dadleuon yn rhesymol ond gallent fod yn unochrog.<br>• Mae'r sylwadau gwerthusol yn amlwg yn berthnasol i'r cyd-destun.<br>• Strwythur rhesymegol ar y cyfan.<br>• Mae'n dod i gasgliad priodol ar sail y dystiolaeth a gyflwynir. |
| **3-5** | • Gwerthusiad sylfaenol.<br>• Dyfnder neu amrediad.<br>• Mae'r sylwadau gwerthusol a wneir yn tueddu i fod yn gyffredinol a heb eu gosod yn y cyd-destun.<br>• Strwythur rhesymol.<br>• Mae'n dod i gasgliad sylfaenol. |
| **1-2** | • Mae'r gwerthusiad yn arwynebol. Mae'r deunydd yn gymysglyd.<br>• Nid yw'r ateb yn symud y tu hwnt i osodiadau.<br>• Dim casgliad. |
| **0** | • Ateb amhriodol wedi'i roi.<br>• Dim ymgais i roi ymateb. |

4. (a) Disgrifiwch ganfyddiadau ymchwil Myers a Diener (1995) '*Pwy sy'n hapus?'* [8]

| | |
|---|---|
| **Gellir** rhoi marciau am ddisgrifiad o'r canlynol:<br>• Oed: dim gwahaniaeth, ffactorau gwahanol yn berthnasol i oedrannau gwahanol.<br>• Rhywedd: dim gwahaniaeth yn gyffredinol, 80% o ddynion/menywod yn fodlon â bywyd (Inglehart, 1990).<br>• Hil/Diwylliant: gwahaniaethau mawr wedi'u canfod, 10% yn hapus iawn ym Mhortiwgal a 40% yn hapus iawn yn Yr Iseldiroedd (Inglehart, 1990), diwylliannau cyfunolaidd ac unigolyddol.<br>• Arian: cydberthyniad o 0.67 rhwng cyfoeth gwladol a llesiant, cydberthyniad o 0.12 rhwng incwm a hapusrwydd.<br>• Nodweddion pobl hapus: hunanwerth, optimistiaeth, allblygedd.<br>• Buddion perthnasoedd: affaith cadarnhaol uwch pan fyddan nhw gydag eraill, y sawl â mwy o ffrindiau sydd hapusaf (Umberson, 1988).<br>• Boddhad a llif gwaith; Ymchwil Csikszentmihalyi.<br>• Crefydd; mae pobl grefyddol yn adrodd am lefelau uwch o hapusrwydd (Poloma a Pendleton, 1990).<br>• Elfennau o ddamcaniaeth hapusrwydd (addasiad, barn ddiwylliannol o'r byd, gwerthoedd a nodau).<br><br>• Unrhyw ganlyniadau priodol eraill. | |
| **Marciau** | **AA1** |
| **7-8** | • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn drylwyr.<br>• Mae dyfnder ac amrediad i'w gweld.<br>• Defnydd effeithiol o derminoleg briodol. |
| **5-6** | • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn rhesymol.<br>• Mae dyfnder ac amrediad i'w gweld, ond efallai nad ydynt yn gytbwys.<br>• Defnydd da o derminoleg briodol. |
| **3-4** | • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn sylfaenol.<br>• Dyfnder neu amrediad.<br>• Defnydd prin o derminoleg briodol. |
| **1-2** | • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn arwynebol.<br>• Defnydd prin o derminoleg briodol. |
| **0** | • Ateb amhriodol wedi'i roi.<br>• Dim ymgais i roi ymateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

(b) Disgrifiwch yn fyr gasgliadau ymchwil Myers a Diener (1995) '*Pwy sy'n hapus?*' [4]

| **Gellir** rhoi marciau am ddisgrifiadau o'r canlynol:<br>• Dylai'r theori hapusrwydd gynnwys pwysigrwydd addasiad, golwg diwylliannol o'r byd a gwerthoedd a nodau.<br>• Mae'r ymchwil i hapusrwydd yn "ymchwil cyflenwol i'w groesawu" i astudiaethau seicolegol ynghylch iselder ac ati.<br>• Drwy ymchwilio i hapusrwydd byddwn yn "deall yn well sut i lunio byd sy'n gwella llesiant dynol".<br><br>• Unrhyw gasgliad priodol arall. | |
|---|---|
| **Marciau** | **AA1** |
| **4** | • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn drylwyr.<br>• Defnydd effeithiol o derminoleg briodol. |
| **3** | • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn rhesymol.<br>• Defnydd da o derminoleg briodol. |
| **2** | • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn sylfaenol.<br>• Defnydd prin o derminoleg briodol. |
| **1** | • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn arwynebol.<br>• Defnydd prin iawn o derminoleg briodol. |
| **0** | • Ateb amhriodol wedi'i roi.<br>• Dim ymgais i roi ymateb. |

5. Disgrifiwch brif elfennau seicolawdriniaeth **NEU** therapi cyffuriau. [12]

| Seicolawdriniaeth | Therapi cyffuriau |
|---|---|
| Seicolawdriniaeth<br>**Gellir** rhoi marciau am ddisgrifiad o'r canlynol:<br>• Disgrifiad o enghreifftiau o seicolawdriniaeth.<br>• Lobotomi cyndalcennol.<br>• Ysgogi'r ymennydd yn ddwfn<br>• Unrhyw ddisgrifiad priodol arall. | Therapi cyffuriau<br>**Gellir** rhoi marciau am ddisgrifiad o'r canlynol:<br>• Disgrifiad o fodd gweithredu cyffuriau penodol.<br>• Gwrthiselyddion.<br>• Cyffuriau gwrthseicotig.<br>• Unrhyw ddisgrifiad priodol arall. |

| **Marciau** | **AA1** |
|---|---|
| **10-12** | • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn drylwyr.<br>• Mae dyfnder ac amrediad i'w gweld.<br>• Defnydd effeithiol o derminoleg briodol.<br>• Strwythur rhesymegol. |
| **7-9** | • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn rhesymol.<br>• Mae dyfnder ac amrediad i'w gweld, ond efallai nad ydynt yn gytbwys.<br>• Defnydd da o derminoleg briodol.<br>• Strwythur rhesymegol ar y cyfan. |
| **4-6** | • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn sylfaenol.<br>• Dyfnder neu amrediad.<br>• Defnydd prin o derminoleg briodol.<br>• Strwythur rhesymol. |
| **1-3** | • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn arwynebol.<br>• Defnydd prin o derminoleg briodol.<br>• Diffyg strwythur yn yr ateb. |
| **0** | • Ateb amhriodol wedi'i roi.<br>• Dim ymgais i roi ymateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

6. Nodwch ac esboniwch **ddau** o wendidau'r ymagwedd ymddygiadol. [4+4]

**Gellir** rhoi marciau am nodi ac esbonio'r canlynol:

- Natur benderfynedig yr ymagwedd.
- Natur nomothetig yr ymagwedd.
- Anwybyddu rôl natur.
- Cyffredinoladwyedd y tybiaethau i ymddygiad dynol.
- Defnydd o anifeiliaid.

- Unrhyw wendid priodol arall.

| Marciau (am bob gwendid) | AA3 |
|---|---|
| **4** | • Mae'r gwendid yn cael ei nodi a'i esbonio ac yn cynnwys cyfeirio manwl at y dull. |
| **3** | • Mae'r gwendid yn cael ei nodi a'i esbonio ac mae rhywfaint o gysylltiad â'r dull.<br>**NEU**<br>• Mae'r gwendid yn cael ei nodi a'i esbonio'n fyr ac yn cynnwys cyfeirio manwl at y dull. |
| **2** | • Mae'r gwendid yn cael ei nodi a'i esbonio'n fyr, ond nid oes cysylltiad â'r dull. |
| **1** | • Nodi'r gwendid yn unig. |
| **0** | • Ateb amhriodol wedi'i roi.<br>• Dim ymgais i roi ymateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

7. Gwerthuswch yn feirniadol ymchwil Bowlby (1944), *'Pedwar deg pedwar o ladron ifanc: Eu cymeriadau a'u bywyd cartref'.*[12]

**Gellir** rhoi marciau am werthusiad o'r canlynol:

- Materion Methodolegol e.e. heb sefydlu achos ac effaith, defnydd o ddata ansoddol.
- Materion Dilysrwydd e.e. tuedd yr ymchwilydd, materion hunanadrodd.
- Materion Moesegol e.e. cyfrinachedd, cydsyniad dilys mewn plant.
- Materion Samplu e.e. roedd y plant yn y sampl i gyd yn emosiynol gythryblus.
- Tystiolaeth Arall e.e. Astudiaethau plant amddifad Rwmania.

- Unrhyw werthusiad priodol arall.

| Marciau | AA3 |
|---|---|
| **10-12** | • Mae'r gwerthusiad yn drylwyr.<br>• Mae dyfnder ac amrediad i'w gweld.<br>• Mae dadleuon datblygedig a chytbwys i'w cael.<br>• Mae'r sylwadau gwerthusol yn amlwg yn berthnasol i'r cyd-destun.<br>• Strwythur rhesymegol<br>• Mae'n dod i gasgliad priodol ar sail y dystiolaeth a gyflwynir. |
| **7-9** | • Mae'r gwerthusiad yn rhesymol.<br>• Mae dyfnder ac amrediad i'w gweld, ond efallai nad ydynt yn gytbwys.<br>• Mae'r dadleuon yn rhesymol ond gallent fod yn unochrog.<br>• Mae'r sylwadau gwerthusol yn amlwg yn berthnasol i'r cyd-destun.<br>• Strwythur rhesymegol ar y cyfan.<br>• Mae'n dod i gasgliad priodol ar sail y dystiolaeth a gyflwynir. |
| **4-6** | • Gwerthusiad sylfaenol.<br>• Dyfnder neu amrediad.<br>• Mae'r sylwadau gwerthusol a wneir yn tueddu i fod yn gyffredinol a heb eu gosod yn y cyd-destun.<br>• Strwythur rhesymol.<br>• Mae'n dod i gasgliad sylfaenol. |
| **1-3** | • Mae'r gwerthusiad yn arwynebol. Mae'r deunydd yn gymysglyd.<br>• Nid yw'r ateb yn symud y tu hwnt i osodiadau.<br>• Dim casgliad. |
| **0** | • Ateb amhriodol wedi'i roi.<br>• Dim ymgais i roi ymateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

8. 'Efallai fod yr ymagwedd fiolegol yn fwy gwyddonol na'r ymagwedd seicodynamig. Er hynny, mae gan yr ymagwedd seicodynamig rai manteision o hyd dros yr ymagwedd fiolegol.'

Gan gyfeirio at y gosodiad uchod, cymharwch a chyferbynnwch yr ymagweddau biolegol a seicodynamig o ran eu tebygrwyddau a'u gwahaniaethau. [10]

**Gellir** rhoi marciau am y canlynol:

- Natur wyddonol e.e. dulliau ymchwiliol a ddefnyddiwyd, natur anwyddonol y dull seicodynamig o gymharu â dulliau gwyddonol y dull biolegol.
- Penderfyniaeth e.e. y ddau'n benderfynedig ond mewn ffyrdd gwahanol.
- Natur/Magwraeth e.e. mae'r dull seicodynamig yn ystyried y ddau, mae'r biolegol yn ystyried natur dros fagwraeth.
- Nomothetig/Idiograffig e.e. mae'r dull seicodynamig yn dilyn y dull idiograffig o gymharu â'r biolegol sy'n dilyn y dull nomothetig.
- Cymwysiadau at therapi e.e. y defnydd o therapi siarad o gymharu â'r defnydd o therapïau biolegol fel cyffuriau.
- Barn gyffredinol am y ddau ddull yn cael eu cysylltu â'r dyfyniad.

- Unrhyw debygrwyddau a gwahaniaethau priodol eraill.

| Marciau | AA2 |
|---|---|
| **9-10** | • Dadansoddiad trylwyr i'w weld o'r tebygrwyddau a'r gwahaniaethau.<br>• Mae dyfnder ac amrediad i'w gweld.<br>• Strwythur rhesymegol<br>• Mae'n dod i gasgliad priodol ar sail y dystiolaeth a gyflwynir.<br>• Cynhwysir cyfeiriadau clir at y dyfyniad. |
| **6-8** | • Dadansoddiad rhesymol i'w weld o'r tebygrwyddau a'r gwahaniaethau.<br>• Mae dyfnder ac amrediad i'w gweld, ond efallai nad ydynt yn gytbwys.<br>• Strwythur rhesymegol ar y cyfan.<br>• Mae'n dod i gasgliad rhesymol ar sail y dystiolaeth a gyflwynir.<br>• Cynhwysir rhai cyfeiriadau priodol at y dyfyniad. |
| **3-5** | • Dadansoddiad sylfaenol i'w weld o'r tebygrwyddau **a'r** gwahaniaethau.<br>**NEU**<br>• Dadansoddiad rhesymol i'w weld o'r tebygrwyddau **neu'r** gwahaniaethau.<br>• Strwythur rhesymol.<br>• Mae'n dod i gasgliad sylfaenol.<br>• Cyfeirir mewn ffordd gyfyngedig a / neu arwynebol at y dyfyniad. |
| **1-2** | • Dadansoddiad arwynebol i'w weld o'r tebygrwyddau a'r gwahaniaethau.<br>**NEU**<br>• Dadansoddiad sylfaenol i'w weld o'r tebygrwyddau **neu'r** gwahaniaethau.<br>• Diffyg strwythur yn yr ateb.<br>• Dim casgliad.<br>• Dim cyfeiriad at y dyfyniad. |
| **0** | • Ateb amhriodol wedi'i roi.<br>• Dim ymgais i roi ymateb. |

GCE Psychology - Unit 1 MS Summer 2016
GH/15.04.2016

© WJEC CBAC Cyf.